ANFON FY FFRIND 08

Canlyniadau

Oed:
8-11

Gofynnwch: beth allai ddigwydd pe baech yn colli'r cyfle i gael addysg dda? Beth allai ddigwydd pe bai eich athrawon yn methu dod i'r ysgol, dywedwch oherwydd na allai'r llywodraeth fforddio eu talu mwyach, neu am iddyn nhw ddiflasu ag addysgu? Beth fyddai'r canlyniadau i chi, eich teulu a'ch cymuned pe na bai gennych chi athrawon o gwbl? Ysgrifennwch atebion y plant fel symbyliad ar gyfer rhan nesaf y gweithgaredd.

Gan weithio mewn grwpiau neu fel dosbarth cyfan, dilynwch rai o ganlyniadau peidio â mynd i'r ysgol. Defnyddiwch fframwaith fel y diagram canlyniadau ar y tudalen nesaf. Sicrhewch fod y disgyblion yn deall rôl athrawon wrth redeg yr ysgol o ddydd i ddydd a'r canlyniadau anferth o beidio â chael athrawon wedi'u hyfforddi'n broffesiynol ac yn cael eu hysgogi yn yr ysgol.

Oed: 11+

Nod: Archwilio sut mae methu cael addysg yn gwneud pobl yn llai galluog i fynnu hawliau dynol sylfaenol eraill.

Rhowch i'r disgyblion yr her o greu map meddwl i ddangos sut mae methu cael addysg yn gallu effeithio ar allu plant i gael hawliau eraill fel y diffinnir gan Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. Gweler y ffeithlen ar y pwnc hwn isod.

Gallen nhw ddefnyddio'r un fformat â'r diagram Canlyniadau.

Mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i fynd i'r ysgol

ANFON FY FFRIND 08

Canlyniadau



Erthyglau o Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn

Erthygl 3
Dylai oedolion wneud yr hyn sydd orau i chi.

Erthygl 6
Mae gennych yr hawl i fyw

Erthygl 14
Mae gennych yr hawl i feddwl fel y mynnwch chi a dilyn pa grefydd bynnag fynnwch chi. Dylai'ch rhieni eich helpu i ddysgu beth sy'n gywir a beth sy'n anghywir.

Erthygl 15
Mae gennych yr hawl i wneud ffrindiau.

Erthygl 17
Mae gennych yr hawl i gasglu gwybodaeth o'r radio, papurau newydd, teledu, llyfrau ac ati, o bob rhan o'r byd.

Erthygl 19
Ni ddylai neb eich brifo mewn unrhyw ffordd.

Erthygl 24
Mae gennych yr hawl i iechyd da.

Erthygl 27
Mae gennych yr hawl i fwyd, dillad a lle i fyw.

Erthygl 28
Mae gennych hawl i gael addysg.

Erthygl 30
Mae gennych yr hawl i'ch diwylliant eich hunan, ymarfer eich crefydd eich hun a defnyddio'ch iaith eich hun.

Erthygl 31
Mae gennych yr hawl i chwarae.

Erthygl 37
Ni ddylech gael eich carcharu.

Mae 72 miliwn o blant yn colli'r cyfle i fynd i'r ysgol